

Alun Davies AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau  
Cyhoeddus  
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein Cyf/Our Ref: MA-P/ARD/406918

At:  
Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru

Copi at:  
Brif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Cymru  
Prif Gwnstabiaid Heddluoedd yng Nghymru  
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd yng Nghymru

13 Rhagfyr 2018

Annwyl Gomisiynwyr,

### Setliad Dros Dro yr Heddlu 2019-20

Yn dilyn y cyhoeddiad heddiw gan y Swyddfa Gartref ynghylch y Setliad Dros Dro ar gyfer plismona yng Nghymru a Lloegr, rwyf yn ysgrifennu i ddarparu manylion am elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Dros Dro yr Heddlu i heddluoedd yng Nghymru ar gyfer 2019-20.

Mae cyhoeddiad y Swyddfa Gartref yn nodi, wrth gymryd cydrannau'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru at ei gilydd, y bydd Heddlu Cymru i gyd yn derbyn cynnydd o 2.1% mewn cyllid yn 2019-20 o gymharu â flwyddyn yma.

Yn **Atodiad A** ceir manylion y Setliad Dros Dro ar gyfer pob heddlu yng Nghymru.

Mae'r cyfnod o ymgynghori ffurfiol ar y swm a'r dosbarthiad yn dechrau heddiw ac yn dod i ben ar 10 Ionawr 2019. Dylid anfon ymatebion at:

Shelley Heath, Yr Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol,  
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ  
E-bost: [LGFPSettlement@llyw.cymru](mailto:LGFPSettlement@llyw.cymru)

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal â hynny, rydym yn gwahodd sylwadau a ellid llunio'r setliad arfaethedig, neu ei ddiwygio, i gael effeithiau cadarnhaol, neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Alun.Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Alun.Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gall copïau o ymatebion gael eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan gydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb a dderbynnir erbyn y dyddiad cyflwyno cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hatgoffa o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Byddaf yn ystyried yr ymatebion i gyd cyn gwneud penderfyniad terfynol a chyhoeddi Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2019-20 (Comisiynwyr Heddlu a Throseddu). Mae disgwyl i'r ddadl ar yr adroddiad hwn gael ei gynnal yn y Cynulliad yn Chwefror 2019.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun Davies', with a horizontal line underneath it.

**Alun Davies AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus  
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services

## Atodiad A: Setliad Dros Dro'r Heddlu ar gyfer Cymru, 2019-20

**Tabl 1: Aseiad o Wariant Safonol (£m)**

|               | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---------------|---------|---------|---------|---------|
| Dyfed-Powys   | 34.488  | 35.151  | 35.860  | 36.618  |
| Gwent         | 51.419  | 52.407  | 53.462  | 54.593  |
| Gogledd Cymru | 49.665  | 50.621  | 51.654  | 52.743  |
| De Cymru      | 119.882 | 122.186 | 124.630 | 127.269 |
| Cyfanswm      | 255.453 | 260.364 | 265.606 | 271.223 |

**Tabl 2: Cyllid Allanol Cyfun (RSG+NNDR, £m)**

|               | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---------------|---------|---------|---------|---------|
| Dyfed-Powys   | 12.895  | 12.870  | 13.101  | 13.355  |
| Gwent         | 30.107  | 30.583  | 31.083  | 31.701  |
| Gogledd Cymru | 21.578  | 21.907  | 22.122  | 22.496  |
| De Cymru      | 72.177  | 73.341  | 74.594  | 75.848  |
| Cyfanswm      | 136.757 | 138.700 | 140.900 | 143.400 |

**Tabl 3: Grant yr Heddlu a Chyllid Gwaelodol (£m)<sup>1</sup>**

|               | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---------------|---------|---------|---------|---------|
| Dyfed-Powys   | 37.117  | 36.443  | 36.212  | 36.993  |
| Gwent         | 42.393  | 40.904  | 40.404  | 41.287  |
| Gogledd Cymru | 51.167  | 49.821  | 49.606  | 50.738  |
| De Cymru      | 87.463  | 84.066  | 82.812  | 84.864  |
| Cyfanswm      | 218.140 | 211.234 | 209.034 | 213.882 |

**Tabl 4: Cyfanswm Cymorth Canolog (£m)**

|               | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---------------|---------|---------|---------|---------|
| Dyfed-Powys   | 50.012  | 49.313  | 49.313  | 50.348  |
| Gwent         | 72.501  | 71.487  | 71.487  | 72.988  |
| Gogledd Cymru | 72.745  | 71.728  | 71.728  | 73.234  |
| De Cymru      | 159.639 | 157.407 | 157.407 | 160.712 |
| Cyfanswm      | 354.897 | 349.934 | 349.934 | 357.282 |

**Tabl 5: Newid mewn Cyfanswm Cymorth Canolog ers y flwyddyn flaenorol (%)**

|               | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---------------|---------|---------|---------|---------|
| Dyfed-Powys   | -0.6%   | -1.4%   | 0.0%    | 2.1%    |
| Gwent         | -0.6%   | -1.4%   | 0.0%    | 2.1%    |
| Gogledd Cymru | -0.6%   | -1.4%   | 0.0%    | 2.1%    |
| De Cymru      | -0.6%   | -1.4%   | 0.0%    | 2.1%    |
| Cyfanswm      | -0.6%   | -1.4%   | 0.0%    | 2.1%    |

Nodiadau:

<sup>1</sup> Dyma swm grant yr heddlu a nodir yn adran 3 o Adroddiad Grant yr Heddlu sy'n cynnwys y dyraniad o dan 'Prif Fformiwla' ac 'Ychwanegu Rheol 1' (colofnau a a b) plws swm y 'cyllid gwaelodol' y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i sicrhau sydd ar gael.